**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd drwy Skype ar 20 Ionawr 2021**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cyng. Bryan Apsley **(Cadeirydd)**
Y Cyng. J B Hughes
Y Cyng. Simon Glyn
Ken Finch, Trysorydd
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r gweithwyr
Tim Lloyd, Undeb yr FBU
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân.

Yn cynghori
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau
Martin Morgan, Dirprwy Reolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Yn cofnodi
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Kevin Gerrard, Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2020 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

4 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

4.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau fynd â'r Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Sganio'r Gorwel

- Dyfarniad Booth
- Golwg gyffredinol ar fwletinau a chylchlythyrau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y lefel gyfredol o aelodau yng nghynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Cafodd ffigyrau diweddar eu darparu yn ystod y cyfarfod, gan gadarnhau bod 77 o aelodau o staff heb gofrestru yn yr un o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, sef 15 o weithwyr amser cyflawn a 62 o weithwyr y system RDS.

4.3 Cafodd yr aelodau fanylion dau achos a atgyfeiriwyd gan aelodau at yr Ombwdsmon Pensiynau yn dilyn proses y Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Problemau. Cafwyd penderfyniad am un o'r materion, sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun Pensiwn Addasedig RDS, ac erbyn hyn bydd y gweithiwr yn cael ymaelodi â'r cynllun.

4.4 O ran penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau, cafodd yr Aelodau sicrwydd fod y swyddogion wedi cyfathrebu gyda'r unigolyn er mwyn symud ymlaen a datrys y mater.

4.5 Fe wnaeth yr Aelodau gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y posibilrwydd o ail ymarferiad opsiynau (dyfarniad O'Brien). Nodwyd y gallai gymryd 2-3 blynedd cyn i'r mater gael ei ddatrys ac i Lywodraeth Cymru gyhoeddi diwygiad pellach i'r rheoliadau cyfredol, sef rheoliadau 2007.

4.6 Fe wnaeth yr Aelodau gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o weithredu'r cytundeb lleol mewn perthynas â Dyfarniad Booth. Nodwyd bod 84 o weithwyr (cyfredol ac wedi ymddeol) o fewn cwmpas yr ymarferiad ôl-weithredu. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n asesu'r taliadau pensiwn sydd angen eu cywiro. Ar ôl cwblhau'r rheini'n derfynol, bydd y Gwasanaeth yn ysgrifennu at yr holl weithwyr perthnasol.

4.7 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**.

5 Y DIWEDDARAF AM GYNLLUN PENSIWN DYFED (GWEINYDDYDD Y CYNLLUN)

5.1 Fe wnaeth Mr M Morgan o Gronfa Bensiwn Dyfed fynd â'r Aelodau drwy'r adroddiad, sy'n cael ei gyflwyno er mwyn rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Y Diweddaraf am Faterion Rheoleiddio
- Gohebiaeth electronig
- Ail-gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig
- Apeliadau
- Achosion o Dorri'r Rheoliadau

- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Llif Gwaith.

5.2 Mae trafodaethau wrthi'n digwydd gyda darparwyr meddalwedd y pensiwn i ystyried cynigion ar gyfer y rhwymedi Trosiannol. Ni wyddom ar hyn o bryd beth fydd maint yr ymyriad angenrheidiol er mwyn gweithredu'r opsiwn gorau (Tanategu Dewis Gohiriedig). Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i Gronfa Bensiwn Dyfed gael adnoddau ychwanegol i gwrdd â'r gofynion. Nodwyd y bydd y Gronfa Bensiwn yn cadarnhau pa wybodaeth ychwanegol y bydd angen iddi ei chael gan GTAGC ar ôl cwblhau'r rhwymedi yn derfynol.

5.3 Fe wnaeth Mr Morgan gadarnhau bod yr holl gylchlythyrau wedi cael eu rhoi ar waith, ble bo'n berthnasol.

5.4 Trafodwyd lefelau cofrestru 'Fy Mhensiwn Ar-lein', a chadarnhaodd Mr Morgan eu bod wrthi'n symud ymlaen gyda rhagor o waith digideiddio prosesau er mwyn caniatáu i'r aelodau lenwi a chyflwyno ffurflenni a thystysgrifau yn electronig drwy'r system ar-lein.

5.5 Fe wnaeth y Bwrdd nodi pa mor bwysig yw hi fod yr holl aelodau'n cofrestru ac yn defnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein. Bydd y Gwasanaeth a'r cyrff cynrychioliadol yn parhau gyda'u hymdrechion i annog mwy o aelodau i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein.

5.6 Cadarnhaodd Mr Morgan fod y data o'r gwaith prisio ar gyfer y maes tân yn 2020 wedi cael eu cyflwyno i Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 21/12/20.

**5.7 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 GOLWG GYFFREDINOL AR GYFLOG PENSIYNADWY

6.1 Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau gyflwyniad i roi golwg gyffredinol ar gyflog pensiynadwy.

6.2 Ar hyn o bryd, mae pum cynllun pensiwn yn weithredol ar gyfer diffoddwyr tân. Caiff cyflog pensiynadwy ei ddiffinio gan reolau'r cynllun pensiwn penodol.

6.3 Mae cyflog pensiynadwy yn cael ei ystyried yn bwysig oherwydd mae buddion yr aelodau yn cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at eu cyflog pensiynadwy, fel arfer yn eu blwyddyn olaf o wasanaeth. Gan fod y rheoliadau yn agored i'w dehongli, roedd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn anghyson yn y modd roeddent yn categoreiddio lwfansau. Felly, daethpwyd â nifer o achosion gerbron yr Uchel Lys a'r Ombwdsmon Pensiynau er mwyn penderfynu a ddylid trin lwfansau penodol fel rhai pensiynadwy ai peidio.

6.4 Cafodd yr Aelodau wybodaeth am y gwahanol gyfraith achosion yn ymwneud â materion cyflog pensiynadwy. Hefyd, cafodd yr aelodau wybod am yr holl egwyddorion arweiniol i'w defnyddio gan yr Awdurdodau Tân ac Achub wrth benderfynu a ddylid trin lwfansau penodol fel rhai pensiynadwy ai peidio.

6.5 Yn dilyn y dyfarniad diweddar, sef Booth yn erbyn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, nodwyd rhai egwyddorion i alluogi ATAGC i ailystyried y ffordd o drin lwfansau penodol sy'n cael eu talu. Ym mis Tachwedd 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cytundeb cyfun rhwng ATAGC ac Undeb yr FBU. Roedd tablau yn y cyflwyniad yn dangos y gwahaniaethau rhwng y sefyllfa cyn dyfarniad Booth a'r sefyllfa ar ei ôl.

6.6 O ran y camau nesaf, nodwyd bod ATAGC ac Undeb yr FBU wedi cytuno ar y canlynol:

- Bod lwfansau hyfforddi sy'n cael eu talu'n barhaol i hyfforddwyr dysgu a datblygu yn cael eu trin fel rhai pensiynadwy
- Bod ffioedd cadw sy'n cael eu talu i staff criw dydd yn cael eu trin fel rhai pensiynadwy, naill ai dan eu trefniadau cyflog olaf neu fel Budd Pensiwn Ychwanegol yn ôl amgylchiadau'r unigolyn
- Bydd cywiriadau hanesyddol yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cyfyngiadau, a bydd y cyfraniadau pensiwn yn dechrau ar 30/03/13.

**6.7 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, a chaiff y cyflwyniad ei ddosbarthu i bob Aelod.**

7 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

7.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur wybod i'r Aelodau na chynhaliwyd cyfarfod ers y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 4 Chwefror 2021.

7.2 Cadarnhawyd bod Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn trafod yr un materion â'r Bwrdd Pensiwn Lleol, gan gynnwys yr her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi na all y Bwrdd Pensiwn Lleol symud ymlaen â'r her gyfreithiol i'r amddiffyniad trosiannol oherwydd nad yw'r rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi eto. Y mater arall i'w nodi yw prisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth, a'r data a gyflwynwyd. Caiff hyn ei drafod yn y cyfarfod o Fwrdd Cynghori'r Cynllun.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

8 Y GOFRESTR RISGIAU – CYLLID A LLYWODRAETHU

8.1 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymell bod aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn mynd ati ymhob cyfarfod o'r Bwrdd i ystyried ac adolygu eu Cofrestr Risgiau.

8.2 Dywedodd y PSTC MacArthur mai un risg ariannol allweddol y tynnwyd sylw ato yn y cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol oedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Roedd y cyfraniadau wedi cael eu cynyddu yn ystod 2019/20 yn dilyn gwaith ailbrisio Adran Actiwari'r Llywodraeth yn 2016. Cadarnhawyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu £1.086m o gyllid ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, ni chafwyd cadarnhad o gymorth ariannol ar gyfer 2022/23 ac ymlaen, felly mae hyn yn parhau'n risg hirdymor.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi maes risg cyllid a llywodraethu o'r Gofrestr yn 2020-21, bod unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yn cael eu hymgorffori yn y gofrestr, a bod y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod**.

9 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR ATA

9.1 Caiff y cyfarfod nesaf o'r ATA ei gynnal ar 15 Mawrth. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y byddai'r mater yn ymwneud â chyllid a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ariannol.

9.2 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw fater arall at yr ATA.

10 UNRHYW FATER ARALL

10.1 Dim.